ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i adroddiad thematig Estyn: Arferion cofrestru disgyblion

**Adroddiadau Cylch Gwaith Estyn**
**Ymateb Llywodraeth Cymru**

| **Teitl yr adroddiad:**<br>**Arferion cofrestru disgyblion** |
|---|
| **Manylion yr adroddiad**<br><br>Comisiynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru i ymchwilio i ba mor gyffredin yw'r arfer o ysgolion yn tynnu disgyblion oddi ar y gofrestr, ac effaith hynny. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar ddeall pa mor gyffredin yw'r arfer o ysgolion yn tynnu disgyblion oddi ar y gofrestr, a'r hyn y mae awdurdodau lleol yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater. Hefyd, mae'n nodi cyrchfan y dysgwyr sy'n cael eu tynnu oddi ar y gofrestr. |
| **Crynodeb o'r prif ganfyddiadau**<br><br>Darganfu Estyn nifer o arferion cofrestru disgyblion, lle nad oedd y gweithdrefnau'n cael ei ddefnyddio fel y'u bwriadwyd, gan gynnwys: ysgolion yn tynnu enw disgybl oddi ar y gofrestr yn gyfan gwbl heb waharddiad ffurfiol ('tynnu oddi ar y gofrestr'); cofnodi bod disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10 neu flwyddyn gynharach; a newid o brif gofrestriad deuol i gofrestriad deuol atodol cyn CYBLD ym Mlwyddyn 11. Mae'r rhain yn cael eu trafod mewn manylder isod.<br><br>Canfu'r adolygiad, dros y chwe blynedd diwethaf, ar gofrestr ysgolion uwchradd a gynhelir ac ysgolion pob oed, fod y ganran o ddisgyblion Blwyddyn 10 nad ydynt wedi symud ymlaen i Flwyddyn 11 wedi dyblu bron (2.3% i 4.2%). Yn ystod yr un cyfnod, dim ond cynnydd bach a welwyd yng nghanran y disgyblion nad ydynt wedi symud ymlaen i flynyddoedd ysgol eraill.<br><br>Yn 2017-2018, mae canran y disgyblion Blwyddyn 10 sydd wedi ail-wneud Blwyddyn 10 chwe gwaith yn uwch na'r gyfradd a welwyd yn 2013-2014 (o 0.09% i 0.55%). Mewn llawer o achosion, nid yw disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10 yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 i orffen eu hastudiaethau Cyfnod Allweddol 4, ond maent yn gadael yr ysgol ar ôl dwy flynedd ym Mlwyddyn 10.<br><br>Dros y chwe blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cael eu cofrestru mewn ysgol brif ffrwd ym mis Ionawr ym Mlwyddyn 10 ac sydd wedyn yn symud i addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) fel prif ddarparwr cyn mis Ionawr Blwyddyn 11 wedi dyblu bron.<br><br>Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgil am ddim, a disgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig neu sy'n cael mynediad at ddarpariaeth Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, yn llawer llai tebygol na'u cyfoedion o fynd o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11.<br><br>Yn ystod y chwe blynedd diwethaf, mae cynnydd wedi bod yn nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. |

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

**A7 - Adolygu'r drefn ar gyfer cofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol[1], ac ystyried data cyrchfannau i fesur effeithiolrwydd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol**

**Derbyn** - rydym yn cydnabod nad yw'r dull gweithredu presennol o gofrestru disgyblion yn cael ei ddefnyddio fel y'i bwriadwyd ym mhob achos. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau o gofrestru disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) ac, yn sgil hynny, nid yw'r data mewn cysylltiad ag effeithiolrwydd darpariaeth EOTAS mor gywir ag y gallai fod. Mae hyn, o ganlyniad, yn ei gwneud hi'n anodd monitro effeithiolrwydd EOTAS o ran deilliannau ar gyfer disgyblion ac yn ei gwneud yn anos i sefydliadau unigol fod yn atebol am ddeilliannau disgyblion.

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n datblygu model i safoni'r broses o gofrestru disgyblion EOTAS. Mae'r model yn cael ei ddatblygu yng nghyd-destun y dull gweithredu newydd o ymdrin ag atebolrwydd, a ddylai leihau'r cymhellion i ysgolion ddefnyddio'r system o gofrestru disgyblion yn y ffyrdd a nodwyd gan Estyn. Nod y broses safoni yw creu system gofrestru sy'n rhoi data cywir, tryloywder a llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb clir.

Yr ydym wrthi yn edrych ar opsiynau o ran casglu data am gyrchfannau disgyblion EOTAS gyda Gyrfa Cymru.

**A8 - Gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu cronfeydd data o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal**

**Derbyn** - Rydym wedi lansio'r ymgynghoriad ar y canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref ar 29 Gorffennaf, gan ddod i ben ar 25 Hydref. Ein bwriad yw ymgynghori yn nes ymlaen eleni ar reoliadau drafft sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu cronfa ddata o'r holl blant oedran ysgol gorfodol yn eu hardal er mwyn eu cynorthwyo i ganfod y rhai nad ydynt ar gofrestr ysgol, sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), neu sydd ar gofrestr ysgol annibynnol, ac nad ydynt yn cael addysg addas.

Y prif fwriad polisi sydd y tu cefn i'n cynigion yw sicrhau bod plant sy'n cael eu haddysg yn y cartref yng Nghymru yn cael eu cyfrif a'u bod yn derbyn addysg addas. Er nad yw hyn yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol, mae'r canllawiau statudol yn cynrychioli newid yn yr hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol, a byddant yn eu helpu i gyflawni eu dyletswydd i sicrhau bod plant yn derbyn addysg addas. Mae'r canllawiau statudol yn cynnwys cyngor i awdurdodau lleol ar asesu pa mor addas yw'r addysg, ac maent yn egluro y dylai'r awdurdod lleol weld y plentyn o leiaf unwaith y flwyddyn, fel rhan o'r asesiad hwnnw, oni bai bod materion eraill yn codi sy'n gofyn am gyfarfodydd amlach.

[1]Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod y dull gweithredu gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg yn y cartref yn gyson, yn deg ac yn dryloyw ar draws Cymru.

**A9 - Adolygu trefniadau ar gyfer CYBLD i sicrhau tryloywder gwell o ran symudiadau disgyblion**

**Gwrthod** – Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 yn deddfu ar ba ddata lefel unigol y gellir ei gasglu gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw, ar hyn o bryd, yn caniatáu casglu data penodol ynghylch symudiadau, y cyfeirir atynt yn adroddiad thematig Estyn, megis cyrchfannau.

Mae CYBLD yn cael ei adolygu a'i wella'n barhaus gyda'r nod o leihau'r baich ar y rhai sy'n cyflwyno ac yn dilysu ffurflenni. Mae hyn hefyd yn gwella gwytnwch y data a gesglir gan Lywodraeth Cymru. Ni fyddai'r baich gweinyddol ar ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig ag ehangu neu gynyddu pa mor aml y gwneir CYBLD yn gyfwerth â'r manteision tebygol.

Fodd bynnag, mae yna opsiynau dadansoddol y gellid o bosibl eu harchwilio yn y dyfodol. Mae'r CYBLD, ynghyd â chasgliadau data statudol eraill, megis y casgliadau data Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (CRCSC), Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a chasgliadau'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), yn cynnwys rhif disgybl unigryw ar gyfer pob dysgwr unigol. Felly, gellir defnyddio'r rhif unigryw i ddadansoddi a chysylltu data sydd eisoes yn bodoli i ddadansoddi cyrchfannau grwpiau o ddysgwyr.

Mae swyddogion hefyd yn monitro datblygiadau technolegol yn y sector addysg, yn arbennig mewn perthynas â throsglwyddo data am ddysgwyr rhwng sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ysgolion nas cynhelir, yn ogystal â chynllun peilot diweddar yr Adran Addysg o ddefnyddio technoleg y rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) ar gyfer system cyfnewid data Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

**Mae'r adroddiad yn nodi'r argymhellion canlynol ar gyfer ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol:**

**Dylai ysgolion a chyrff llywodraethol:**
A1 - sicrhau bod disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10 mewn amgylchiadau eithriadol yn unig
A2 - adolygu arferion cofrestru a symudiadau disgyblion yn rheolaidd fel rhan o drefniadau gwerthuso a gwella ysgolion
A3 - sicrhau bod llywodraethwyr yn monitro symudiadau disgyblion rhwng Blynyddoedd 10 ac 11

**Dylai awdurdodau lleol:**
A4 - fonitro arferion cofrestru ysgolion i roi sicrwydd fod ysgolion bob amser yn gweithredu er lles pennaf disgyblion unigol
A5 - sicrhau bod gan awdurdodau lleol ac ysgolion feini prawf a phrotocolau

| |
|---|
| clir ar gyfer caniatáu i ysgolion gofrestru disgyblion yn ddisgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10<br>A6 - monitro ac ymchwilio i unrhyw achosion lle mae disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10 neu'n symud o Flwyddyn 10 i flwyddyn ysgol heblaw Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11<br><br>Bydd Is-adran Cymorth i Ddysgwyr y Gyfarwyddiaeth Addysg yn ysgrifennu at awdurdodau lleol i dynnu sylw at yr argymhellion sydd wedi eu gosod arnynt ac ar ysgolion gan yr adroddiad hwn. |
| **Manylion cyhoeddi**<br><br>Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar wefan Estyn ar 25 Mai 2018: https://www.estyn.llyw.cymru/ |

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

ISBN digidol 978-1-83933-428-3

© Hawlfraint y Goron Hydref 2019
**WG39376**